
Cyfraith gyhoeddus a chyfraith troseddau W203

Patrwm cyflwyno O fis Hydref i fis Mehefin

Disgrifiad o'r modiwl

Mae'r modiwl hwn yn archwilio'r gydberthynas rhwng y wladwriaeth a'i dinasyddion ac yn dadansoddi'r egwyddorion sy'n sail i gyfraith gyfansoddiadol a chyfraith troseddau mewn modd beirniadol. Trafodir rôl a pherthnasedd cyfansoddiadau cenedlaethol a nodweddion allweddol cyfansoddiad y DU. Yna, eir ati i ystyried ffyrdd o herio ac adolygu camau gweithredu cyrff cyhoeddus. Caiff natur sofraniaeth, y gwaith o ddiogelu unigolion a rôl yr heddlu eu trafod a'u gwerthuso cyn mynd ati i archwilio troseddau ac amddiffyniadau. Defnyddir astudiaethau achos drwyddi draw er mwyn cyd-destunoli'r ddamcaniaeth a thynnir sylw at ddimensiynau rhyngwladol cyfraith.

Manyleb y person

Dylid darllen manyleb y person ar gyfer y modiwl hwn yn unol â'r [fanyleb gyffredinol](#) ar gyfer darlithydd cyswllt yn Y Brifysgol Agored.

Yn ogystal â bodloni'r holl ofynion a nodir yn y fanyleb gyffredinol, dylech feddu ar y canlynol:

- profiad cyfredol neu ddiweddar (h.y. yn ystod y tair blynedd diwethaf) o addysgu cyfraith troseddau neu gyfraith gyhoeddus ar lefel israddedig neu ymarfer cyfreithiol proffesiynol mewn cyfraith troseddau neu gyfraith gyhoeddus
- dealltwriaeth a gwybodaeth gyfredol ynghylch cyfraith troseddau neu gyfraith gyhoeddus a'r gallu i drosglwyddo'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth hon i fyfyrwyr drwy arfer addysgu effeithiol
- y gallu i ddangos dealltwriaeth a gwybodaeth gyfredol ynghylch yr amgylchedd cyfreithiol sy'n newid a'r newidiadau o ran addysgu'r gyfraith
- tystiolaeth o ddull systematig o addysgu sgiliau cyfreithiol academiaidd sylfaenol a rhesymu cyfreithiol
- profiad o gynnal ymchwil gyfreithiol ar-lein drwy ddefnyddio cronfeydd data cyfreithiol ar-lein neu mewn cyd-destun academiaidd neu broffesiynol a thystiolaeth o'r gallu i roi cymorth priodol i fyfyrwyr wrth ddefnyddio cronfeydd data cyfreithiol er mwyn meithrin eu sgiliau ymchwil ar-lein, digidol a llythrennedd gwybodaeth
- y gallu i ddangos hanes o ddatblygiad personol ac arfer myfyriol ac ymrwymiad parhaus iddynt, ynghyd â'r gallu a'r parodrwydd i fentora/cefnogi myfywrwr wrth gynllunio datblygiad personol
- tystiolaeth o'r gallu i roi adborth ysgrifenedig priodol ac wedi'i deilwra ar gynnwys a sgiliau er mwyn helpu myfywrwr unigol i ddatblygu drwy eu rhaglen astudio yn unol â safonau cytunedig y Brifysgol
- y gallu i ddangos sgiliau rheoli llwyth gwaith effeithiol a chwblhau gwaith o fewn terfynau amser y brifysgol
- y gallu a'r parodrwydd i hwyluso dysgu drwy dulliau dysgu cyfunol (cydamseredig ac anghydamseredig, wyneb yn wyneb) ymhlith amrywiaeth o fyfyrwyr â galluoedd, dulliau dysgu, nodau astudio a phrofiadau amrywiol
- tystiolaeth o'r gallu i ddefnyddio technoleg ar-lein i roi cymorth effeithiol i fyfyrwyr.

Manylion sy'n ymwneud â'r modiwl – gallwch gael eglurhad llawn ar y wefan

| | |
|--|----|
| Credydau a ddyfernir i'r myfyriwr am gwblhau modiwl yn llwyddiannus: | 60 |
| Nifer yr aseiniadau a gyflwynir gan y myfyriwr: | 4 |
| Dull cyflwyno aseiniadau: | 2 |
| Lefel y gofynion TGCh: | 3 |
| Nifer y myfywrwr sy'n debygol o fod mewn grŵp safonol: | 20 |
| Band cyflog: | 10 |
| Nifer amcangyfrifedig yr oriau fesul wythnos addysgu: | 8 |